




PEAK CYMRU
PEAK CYMRU
PEAK CYMRU

**PLATFORM 2
COMMISSIONS
2024–25**

**GWAITH COMISIWN
PLATFORM 2
2024–25**

Ffion Williams

Ffion Williams's installation, *Cymraeg Ddrwg*, was the first in a trio of commissions by young artists for the windows of Peak's spaces on Platform 2, Y Fenni Station. It was on display between November 2024 and February 2025, aligning with Ffion's Billboard Commission at Llantarnam Grange in Cwmbran, one stop south on the Welsh borders train line. *Cymraeg Ddrwg* emerged from a period of research that Ffion undertook with Peak in 2022, interviewing passengers at Y Fenni station about Welshness, language and identity.

For each Platform 2 commission in this series, we invite a writer based in the Welsh borderlands to respond to the artwork with a short text. We're delighted to share a response from journalist Jude Rogers, shared alongside documentation from Polly Thomas.

Gosodwaith Ffion Williams, *Cymraeg Ddrwg*, oedd y gwaith cyntaf o dri darn o waith comisiwn gan artistiaid ifanc ar gyfer gofodau ffenestri Peak ar Platfform 2, Gorsaf Drenau'r Fenni. Roedd i'w weld rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Chwefror 2025, gan gyd-fynd â Chomisiwn Hysbysfwrdd Ffion yn Llantarnam Grange yng Nghwmbrân, sydd ond un orsaf tua'r de ar linell drên y Gororau. Datblygodd '*Cymraeg Ddrwg*' o gyfnod o ymchwil a gyflawnodd Ffion gyda Peak yn 2022, yn cyfweld â theithwyr yng Ngorsaf Drenau'r Fenni am Gymreictod, iaith a hunaniaeth.

Ar gyfer pob darn comisiwn Platfform 2 yn y gyfres yma, rydyn ni'n gwahodd awdur sy'n byw ar y Gororau i ymateb i'r gwaith celf gyda thestun byr. Rydyn ni'n falch iawn o rannu ymateb y newyddiadurwraig Jude Rogers, sy'n cael ei rannu ochr yn ochr â chofnod gan Polly Thomas.



PART ONE/RHAN UN

Celf Dda/Good Art




Cymraeg lurks around the borders of your life when you're a Welsh person whose first language is English. It lurks in your family's roots, your distant education, your memories, and then – to use a word which will unnerve any Welsh language learner – it mutates.

Ffion Williams' *Cymraeg Ddrwg* (Bad Welsh) explores both the pull and the slipperiness of what is literally their mother's tongue. Ffion is from the border town of Raglan, where they learned Welsh in school; their North Walian mother used to speak it in a different regional variation but got teased about her accent and dialect. Ffion left the language behind after school but returned it while studying at the Edinburgh College of Art, pulled to how its rhythms and syllables captured elements of their culture, heritage and identity. They felt a stronger connection to these feelings than their Scottish friends had to languages like Gaelic. Today, Ffion is learning Welsh in a bustling online group.

On overlapping calico sheets resembling protest banners, the paint is in bright blue and red, echoing both the shimmering slate and red clay of the landscapes within which Ffion grew up, and the fight that has raged for centuries over the language. The words they paint, however, didn't originate with them. These come from interviews with people at Abergavenny station, the nearest transport hub to Raglan, and the banners hanging behind commuters on Platform 2 appear like word clouds or thought bubbles. The words express uncertainty, hope, a desire for fluency, a nervousness about getting things right – fittingly in this border country, where the Welsh language is less fixed than other parts of Cymru. .

On these banners on Platform 2, behind people, behind glass, so close to real life but just out of reach, an honesty about expression in Welsh is conveyed. These banners suggest a desire to shout these Welsh-English words in naturalistic, messy, loud, creative ways, but also to fit in, to become another part of a place.



Mae'r Gymraeg yn llechu o amgylch ymylon eich bywyd pan mai Cymro â Saesneg fel iaith gyntaf ydych chi. Mae'n llechu yng ngwreiddiau eich teulu, yn eich addysg bell, yn eich atgofion, ac yna – i ddefnyddio gair sy'n codi braw ar unrhyw ddysgwr – mae'n treiglo.

Mae *Cymraeg Ddrwg* gan Ffion Williams yn archwilio tynfa a llithrigrwydd yr hyn sy'n llythrennol yn famiaith iddyn nhw. Daw Ffion o dre Raglan ar y ffin, lle roedden nhw'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol; roedd eu mam yn siarad Cymraeg, ond mewn acen ogleddol ddieithr, a byddai'n cael ei gwawdio am ei hacen a'i thafodiaith. Gadawodd Ffion yr iaith tu ôl iddynt ar ôl gadael yr ysgol, cyn dychwelyd ati wrth astudio yng Ngholeg Celf Caeredin, pan fydden nhw'n cael eu hatynnu at y ffordd roedd rhythmau a silliau'r iaith yn cyfleu elfen o'u diwylliant, eu treftadaeth a'u hunaniaeth. Roedden nhw'n teimlo cysylltiad cryfach â'r teimladau yma na fyddai eu ffrindiau o'r Alban tuag at ieithoedd fel Gaeleg yr Alban. Heddiw, mae Ffion yn dysgu Cymraeg mewn grŵp byrlymus ar-lein.

Ar daflenni calico haenog tebyg i faneri protest, mae'r paent yn las a choch llachar, gan adleisio llechen ddisglair a chlai coch y tirweddau lle magwyd Ffion, a brwydr yr iaith sydd wedi bod yn rhedeg ers canrifoedd. Ond nid geiriau Ffion, serch hynny, yw'r geiriau maen nhw'n eu paentio. Mae'r geiriau'n deillio o gyfweliadau â phobl ar Orsaf Drenau'r Fenni, y ganolfan drafnidiaeth agosaf i Raglan, ac mae'r baneri sy'n hongian tu ôl i gymudwyr ar Blatfform 2 yn ymddangos fel cymylau o eiriau neu fybls meddwl. Mae'r geiriau'n mynegi ansicrwydd, gobaith, dymuniad am ruglder, nerfusrwydd am gael pethau'n gywir – sy'n ddigon addas yn ardal y gororau, lle mae'r Gymraeg yn llai sefydlog nag y mae yn rhannau eraill o Gymru.

Ar y baneri yma ar Blatfform 2, tu ôl i bobl, tu ôl i wydr, mor agos i fywyd go iawn ond ychydig allan o gyrraedd, caiff gonestrwydd am fynegiant yn Gymraeg ei gyfleu. Mae'r baneri yma'n awgrymu awydd i weiddi'r geiriau Cymraeg-Saesneg yma mewn ffyrdd naturiolaid, anniben, uchel a chreadigol, ond hefyd i ffitio i mewn, i ddod yn rhan o le.

RHAN DAU/PART TWO

Bad Welsh / Cymraeg Ddrwg




Ffion is nearly twenty years younger than me. I was part of the last group of secondary school kids, in 1992, to be able to drop the study of Welsh at thirteen. I did so, then, with relish.

Ffion studied Welsh until GCSE, when you could choose to do it as a full exam “or a half.” They remember the focus on what pupils did wrong, “because that’s the way grades happen” and how when their mum helped them with their homework, their teachers marked them down saying what they’d done wasn’t right.

On a rainy morning at Abergavenny station, Ffion and I discuss the absurdity of language – an evolving, whirling beast – being right and wrong, and how this affects its speakers. We talk about regret: regret that our teachers hadn’t conveyed to us a stronger passion for Welsh when our minds were more malleable for language acquisition; regret how, as adult learners, we still worry about not speaking it “well enough”, nor being able to use it “properly”.

But Ffion’s lively, curious work conjures up hope. I notice how words from *Cymraeg Ddrwg* jump out at us as we talk – pobl/people, siarad/speaking, nawr/now – and how I started to thread my own meanings together. Ffion tells me how the Brittonic languages, first spoken in Iron Age and Roman times, are much closer to modern Welsh than to Gaelic, and were spoken in most of Britain, including Edinburgh. They see their Welsh improving through their artwork, “by just enjoying being playful and not scared to make mistakes...and if we’re trying to get more people comfortable learning it and speaking it, then we need to take away that worry”.

Ffion found interviewees on these platforms keen to say things too: that they could speak Welsh; that they were actively learning; that they didn’t realise how important Welsh was until they moved away. Ffion hopes that people will look at *Cymraeg Ddrwg* “in curiosity, and then spot a word that they know, and then start trying to figure out what it’s saying.” Then Ffion says something that stays with me when I go back to my ordinary life, as my roots, education and memories once again blur into the borders of who I am. “I want to encourage people to think a little about how much they can understand.” *Bad Ddrwg* helps us understand modern Wales, modern Welsh, ourselves, and each other.



Mae Ffion bron â bod ugain mlynedd yn iau na fi. Ro'n i'n rhan o'r grŵp olaf o blant ysgol uwchradd, yn 1992, a oedd yn gallu dewis peidio astudio Cymraeg yn 13 oed. Dyna wnes i, yn llawen, ar y pryd.

Astudiodd Ffion y Gymraeg tan TGAU, pan allech chi ddewis gwneud arholiad llawn “neu hanner”. Maen nhw'n cofio'r ffocws ar gamgymeriadau'r disgyblion, “oherwydd dyna sut mae graddau'n digwydd” a phan helpodd eu mam nhw gyda'u gwaith cartref, ond fe gollon nhw farciau gyda'r athrawon yn dweud nad oedd y gwaith yn gywir.

Ar fore glawog yng Ngorsaf Drenau'r Fenni, mae Ffion a fi'n trafod absŵrdiaeth iaith – bwystfil esblygol a chwyrliol – bod yn gywir ac yn anghywir, sut mae hyn yn effeithio ar siaradwyr. Rydyn ni'n siarad am ddifaru: difaru nad oedd ein hathrawon wedi cyfleu angerdd cryfach at y Gymraeg i ni pan oedd ein meddyliau'n fwy hyblyg i gaffael iaith; difaru ein bod ni, fel oedolion sy'n dysgu, yn dal i boeni nad ydyn ni'n “ei siarad yn ddigon da, nac yn gallu ei defnyddio'n ‘iawn’”.

Ond mae gwaith bywiog a chwilfrydig Ffion yn creu gobaith. Rwy'n sylwi ar y ffordd mae geiriau o *Cymraeg Ddrwg* yn neidio allan wrth i ni siarad – fel pobl, siarad, nawr – a'r ffordd rwy'n dechrau gwehyddu fy ystyron fy hunan. Mae Ffion yn dweud wrtha i fod ieithoedd Brythonaidd, a siaradwyd yn yr Oes Haearn a Rhufeinig, yn llawer tebycach i Gymraeg fodern na'r Aeleg, ac y byddent yn cael eu siarad yn y rhan fwyaf o Brydain, gan gynnwys Caeredin. Maen nhw'n gweld bod eu Cymraeg yn gwella drwy eu gwaith celf “drwy fwynhau bod yn chwareus a pheidio ofni gwneud camgymeriadau... ac os ydyn ni am geisio cael mwy o bobl yn gyfforddus i'w dysgu a'i siarad, yna mae angen i ni gael gwared â'r pryder yna.”

Gwelodd Ffion fod y bobl oedd yn cael eu cyfweld ar y platfform yn awyddus i ddweud pethau hefyd: y gallen nhw siarad Cymraeg; eu bod wrthi'n dysgu; nad oedden nhw wedi sylweddoli mor bwysig oedd y Gymraeg tan iddyn nhw symud oddi yma. Mae Ffion yn gobeithio y bydd pobl yn edrych ar *Cymraeg Ddrwg* “â chwilfrydedd, ac yna'n gweld gair maen nhw'n ei nabod, ac yna ceisio datrys beth mae'n ei ddweud”. Yna mae Ffion yn dweud rhywbeth sy'n aros gyda fi ar ôl i fi ddychwelyd i fy mywyd bob dydd, wrth i fy ngwreiddiau, fy addysg, a fy atgofion unwaith eto gymylu'r ffiniau sy'n nodi pwy ydw i. “Hoffwn i annog pobl i feddwl gymaint maen nhw'n gallu'i ddeall.” Mae *Cymraeg Ddrwg* yn ein helpu ni i ddeall Cymru fodern, Cymraeg fodern, ein hunain, a'n gilydd.

BIOGRAPHIES

FFION WILLAMS

Ffion Willams is a Welsh artist based in Edinburgh. They graduated from Edinburgh College of Art in 2023 with a degree in Painting. Ffion uses sound, metal work and protest banner motifs to create work that investigates language, place, protest, and industrialisation. Responding to the complex legacy of the Welsh language, a minority language that was banned for over 500 years, they use Cymraeg to explore their own complex and uneasy relationship with Welshness. Seeing people use and talk about Cymraeg documents that it is still alive and means a lot to so many people. Ffions work endeavours to share this history and experience.

[@ffionsophie_art](#)

JUDE ROGERS

Jude Rogers is a journalist born and raised in Swansea, who ran away for a while to Oxford and London, before moving back to Wales nearly ten years ago. She writes about the arts for the Guardian, the Observer, the New Statesman and The Quietus, and makes documentaries about music, films and more for BBC radio. Now living in Monmouthshire, she also loves writing about people and projects in and around Wales, and in the last year, she has worked with Theatr Clwyd, Anthem Music Fund Wales, Velindre Cancer Centre and Cardiff Music City Festival. She's delighted to be finding out about the brilliant young artists at PEAK Cymru.

[juderogers.substack.com](#)

[www.instagram.com/thisisjuderogers/](#)

[www.theguardian.com/profile/juderogers](#)

BYWGRAFFIADAU

FFION WILLAMS

Artist o Gymru sy'n byw yng Nghaeredin yw Ffion Williams. Graddion nhw o Goleg Celf Caeredin yn 2023 gyda gradd mewn Paentio. Mae Ffion yn defnyddio sain, gwaith metel a motiffau baneri protest i greu gwaith sy'n ymchwilio i iaith, lle, protest a diwydiannu. Gan ymateb i waddol cymhleth y Gymraeg, a gafodd ei gwahardd am dros 500 o flynyddoedd, maen nhw'n defnyddio'r iaith leiafrifol i archwilio eu perthynas gymhleth ac anesmwyth â Chymreictod. Mae gweld pobl yn defnyddio ac yn siarad am y Gymraeg yn dogfennu ei bod yn dal yn fyw ac yn golygu llawer i gymaint o bobl. Mae gwaith Ffion yn ceisio rhannu'r hanes a'r profiad yma.

[@ffionsophie_art](#)

JUDE ROGERS

Newyddiadurwraig a gafodd ei geni a'i magu yn Abertawe yw Jude Rogers, a wnaeth ddianc am gyfnod i Rydychen a Llundain, cyn dychwelyd i Gymru bron i ddeng mlynedd yn ôl. Mae'n ysgrifennu am y celfyddydau i'r Guardian, yr Observer, y New Statesman a The Quietus, ac mae'n creu rhaglenni dogfen am gerddoriaeth, ffilmiau, a mwy ar gyfer radio'r BBC. Mae hi bellach yn byw yn Sir Fynwy, ac mae wrth ei bodd yn ysgrifennu am bobl a phrosiectau yng Nghymru a'r cyffiniau. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae hi wedi gweithio gyda Theatr Clwyd, Cronfa Gerdd Anthem, Canolfan Ganser Felindre, a Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd. Mae hi wrth ei bodd yn darganfod mwy am artistiaid ifanc gwych Peak Cymru.

[juderogers.substack.com](#)

[www.instagram.com/thisisjuderogers/](#)

[www.theguardian.com/profile/juderogers](#)



ACKNOWLEDGEMENTS

DIOLCHIADAU

ARTIST

Ffion Williams

CURATOR / CURADUR

Cerian Hedd (Peak Cymru Curator for Young People, 2024-25)

DOCUMENTATION / DOGFENNAETH

Polly Thomas

CRITICAL RESPONSE / YMATEB BEIRNIADOL

Jude Rogers

THANKS / DIOLCH

Sophie Lindsey (Llantarnam Grange); TFW staff at Y Fenni station

TRANSLATION / CYFIEITHU

nico

DESIGN / DYLUNIO

Cathy Buckmaster



Paul Hamlyn
Foundation



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

